Y Bwthyn
Casnewydd-bach
Hwlffordd
Sir Benfro
SA62 5TD

01348 881740
ceri.jones1@virgin.net

Rhodri Glyn Thomas
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

13 Ebrill 2008

Annwyl Mr Thomas

Parthed: Papur Cenedlaethol cyfrwng Cymraeg *Y Byd*

Dw i'n ysgrifennu atoch fel cefnogwr Plaid Cymru i ddatgan fy siom enfawr am y diffyg cefnogaeth ymarferol tuag at y papur arfaethedig uchod.

Dros y blynyddoedd dw i wedi hyrwyddo achos Plaid Cymru ac wedi dosbarthu taflenni di-rif ledled De Cymru: gofynnwch i'ch cyd-aelod Chris Franks. Yn ddiweddar, dw i wedi bod yn gwneud yr un gwaith ar ran ***Y Byd*** ac felly dw i'n gwybod cystal â neb am y gefnogaeth sydd yn bodoli ar gyfer y papur.

Dw i'n synnu nad oes cefnogaeth ariannol o ddifrif ar gyfer y fenter a hyn oddi wrth aelod o Blaid Cymru, o bawb. Mae adroddiad Toni Bianchi o'r wasg Gymraeg yn datgan yn glir bod angen cefnogaeth ddigonol o'r llywodraeth. Nid ydych yn cydymffurfio â'r gofyn hwn.

Mae aelodau o'r llywodraeth wedi awgrymu nad yw'r fenter yn ddichonadwy. Eto, dw i'n synnu at aelodau o Blaid Cymru, o bawb, yn gwneud datganiadau fel hyn. Sut y medrwch chi ddweud hyn o ystyried nad ydych chi wedi gweld cynllun busnes Dyddiol Cyfyngedig ar gyfer ***Y Byd***? Eto, yn adroddiad Bianchi mae e'n dweud yn blwmp ac yn blaen nad oes neb yn gwybod go iawn a ydyw'r fenter yn ddichonadwy neu beidio oherwydd 'does neb wedi cynnal papur dyddiol yn y Gymraeg o'r blaen.

Mae eisiau gweledigaeth ac arweiniad gan arweinwyr Plaid Cymru yn y Cynulliad. Cefnogwch ***Y Byd*** a rhoddwch adnoddau realistig tuag at wireddu un o amcanion eich cynllun llywodraeth ***Cymru'n Un.***

Nos Wener 18 Ebrill 2008, bydda i allan gyda'r nos ar ôl y gwaith yn Sir Benfro yn dosbarthu taflenni ar ran Plaid Cymru. Os nad ydych chi'n cefnogi menter ***Y Byd*** o ddifrif bydd rhaid imi ystyried a oes pwrpas imi wneud gwaith fel hyn rhagor. Dw i'n adnabod pobl sydd wedi peidio adnewyddu eu haelodaeth o Blaid Cymru oherwydd y diffyg cefnogaeth realistig i bapur dyddiol yn ein hiaith ein hunain. Peidiwch â chymryd ein cefnogaeth yn ganiataol.

Yr eiddoch yn gywir

Ceri Jones